**Cyfrifoldeb Gwirfoddolwyr / Ymwelwyr**

Mae pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant drwy eu gwaith bob dydd, boed yn waith cyflogedig neu'n wirfoddol, yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain. Dylech osgoi unrhyw gyswllt a allai arwain unrhyw berson rhesymol i gwestiynu eich cymhellion a'ch bwriadau. Yn Ysgol Pen Barras, mae gennym i gyd ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles ein plant.

## Bathodynnau Adnabod

Rhaid i bob ymwelydd yn Ysgol Pen Barras wisgo bathodyn ymwelydd a dderbynnir o'r Dderbynfa. Bydd unrhyw oedolion heb fathodyn yn cael eu herio.

**Tystysgrifau DBS**

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff cyflenwi, ymwelwyr rheolaidd a gwirfoddolwyr, yn ddarostyngedig i dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae hyn er mwyn helpu i sicrhau bod unigolion amhriodol yn cael eu hatal rhag gweithio gyda phlant.

**Honiadau**

Dylid adrodd unrhyw honiadau i'r Swyddog Diogelu Dynodedig.
Os yw'r pryderon yn ymwneud â'r Swyddog Diogelu, rhowch wybod i'r Pennaeth.

**Beth ddylwn i ei wneud?**

Os ydych yn meddwl bod plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei fod mewn perygl o ddioddef cam-drin, peidiwch â'i anwybyddu na'i anghofio.

Cyflwynwch eich pryder i swyddog diogelu penodedig: Mr Dyfan Phillips (Pennaeth), neu i un o'r dirprwyon dynodedig:

- Miss Ffion Hughes, Mrs Sioned Roberts neu Miss Annwen Hughes.

**Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu a diwallu anghenion ein holl blant.**

Arweinydd Dynodedig Diogelu'r Ysgol Gyfan:

**Mr Dyfan Phillips, Pennaeth**

Dirprwy Arweinwyr Diogelu:

**Miss Ffion Hughes (Dirprwy Bennaeth),**

**Mrs Sioned Roberts,**

**Miss Annwen Hughes**

Llywodraethwr Ysgol Pen Barras gyda chyfrifoldeb dros ddiogelu: **Mrs Ceri Ranson**

Mae gan bawb gyfrifoldeb i sicrhau bod **plant yn Ysgol Pen Barras yn ddiogel.**

**PEIDIWCH Â:**

Penderfynu gwneud dim neu adael ein hysgol heb ddweud wrth neb.

# Ysgol Pen Barras
# 2025 – 2026

# Diogelu ac Amddiffyn Plant


**Ebost – swyddfa@penbarras.cymru**

**Ffordd Glasdir, Ruthin, Denbighshire, LL15 1QQ**
**http://www.ysgolpenbarras.cymru**

## Datgeliad gan blentyn

Er y gall fod yn sefyllfa sy'n peri pryder, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o'r fath ac eich bod yn gallu aros yn dawel ac yn gadarn.

- Gwrandewch ar yr hyn sy'n cael ei ddweud heb ddangos sioc na diffyg cred. Derbyniwch yr hyn sy'n cael ei ddweud.
- Gadewch i'r plentyn siarad yn rhydd; gwrandewch yn hytrach na gofyn cwestiynau uniongyrchol.
- Rhowch sicrwydd i'r plentyn, ond peidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd; eglurwch i'r plentyn fod yn rhaid i chi ddweud wrth y person priodol er mwyn gallu eu helpu.
- Peidiwch ag holi'r plentyn yn fanwl nac ofyn cwestiynau arweiniol.
- Sicrhewch y plentyn nad eu bai nhw yw hyn.
- Pwysleisiwch ei bod yn iawn eu bod wedi dweud wrth rywun.
- Gwnewch yn glir y bydd eu datgeliad yn cael ei rannu dim ond â'r rhai sydd angen gwybod ac sy'n gallu helpu.
- Cofnodwch fanylion y datgeliad ar unwaith, gan gynnwys, lle bo'n bosibl, union eiriau'r plentyn. Llofnodwch a dyddiwch y cofnod.
- Adroddwch eich pryderon a rhowch eich cofnod ysgrifenedig i'r Cydlynydd Diogelu Dynodedig fel y gellir delio â'r mater yn y ffordd fwyaf priodol.
- Byddwch yn ymwybodol o'ch teimladau eich hun am gam-drin a dewch o hyd i rywun y gallwch rannu'r teimladau hynny ag ef ar ôl i'r gweithdrefnau ddod i ben.

Mae'n bwysig cofio bod manylion a henwau'r plentyn yn rhaid aros yn gwbl gyfrinachol, ac na ddylai unrhyw drafodaeth yr ydych yn teimlo ei hangen arwain at adnabod y plentyn i unrhyw un arall.

## Pryderu am blentyn?

Gall cam-drin (corfforol, rhywiol, emosiynol) neu esgeulustod gael effaith niweidiol ar iechyd, cyrhaeddiad addysgol a lles emosiynol plentyn. Nid yw rhai newidiadau ymddygiad o reidrwydd yn golygu bod plentyn yn dioddef cam-drin neu esgeulustod. Mewn rhai achosion, gall y newidiadau hynny fod yn symptomau o anabledd cudd, cyflwr meddygol heb ei ddiagnosio neu newidiadau mewn meddyginiaeth.

Os, wrth weithio gyda phlentyn, y byddwch yn pryderu am:

- Sylwadau a wneir gan blentyn
- Marciau neu gleisiau ar blentyn
- Newidiadau ymddygiad plentyn
- Amgylchiadau neu sefyllfaoedd cartref
- Ymddangosiad neu wisg
- Gwybodaeth a rennir gan rieni/gofalwyr am bryderon ynghylch eu plentyn

Rhowch wybod am y pryderon hyn i'r swyddog diogelu dynodedig.

Yn absenoldeb yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r Dirprwyon, ac y tu allan i oriau'r ysgol, cysylltwch â:

**Children and Families Support Gateway – 01824 712200**

## Mae Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant yn cynnwys:

Diogelu plant rhag cam-drin ac esgeulustod.

Atal amhariad ar eu hiechyd neu eu datblygiad.

Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

**(Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008 – Tudalen 20)**

Mae Diogelu Plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgarwch a gymerir i ddiogelu plant penodol sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gam-drin neu esgeulustod.

(Gweithdrefnau Diogelu Plant **Cymru Gyfan 2008 – Tudalen 16)**

For further information please refer to:

The school's Safeguarding and Child Protection Policy.

Welsh Government Circular: 158/2015 *Keeping Learners Safe*

www.cymru.gov.uk